**Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Hawliau Digidol a Democratiaeth yng Nghymru: Arwylio a Thechnoleg Adnabod Wynebau, Cofnodion**

**28 Mehefin 2023, 10.00-12.00, Ar-lein**

Sarah Murphy AS – Cadeirydd

Grŵp Hawliau Agored – Ysgrifenyddiaeth

Y Panel:

Dominic Edgell - Heddlu De Cymru

Lee Jones – Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Madeleine Stone - Big Brother Watch

- Cyflwynodd Sarah Murphy AS – Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol – y sesiwn, gan egluro bod dulliau adnabod wynebau yn rhywbeth y mae hi wedi bod yn ceisio'i roi ar agenda'r Senedd ers peth amser.

## Defnydd Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebau byw

- Cafwyd cyflwyniad ar "The legitimacy of facial recognition technologies, as a capability in policing and law enforcement" gan y Prif Arolygydd Scott Lloyd o Heddlu De Cymru, sy'n gysylltiedig â swyddogaeth fiometrig Penaethiaid Cenedlaethol yr Heddlu, sef tîm bach o bobl sy'n ceisio helpu i lywio technoleg fiometrig a'r ffordd y caiff ei mabwysiadu yng ngwaith gorfodi'r gyfraith.
- Mae'n credu bod rôl i dechnoleg adnabod wynebau, a dywed fod mwyafrif o'r cyhoedd yn rhannu'r farn honno, gan daeru bod cydsyniad y cyhoedd yn bwysig ar gyfer atal troseddu ac amddiffyn y cyhoedd.
- Felly, maent yn gweithredu mewn ffyrdd cymesur, cyfreithlon ac angenrheidiol, ac mae hynny'n bwysig i'r ddadl barhau i sicrhau bod yr heddlu'n gweithredu o fewn y gyfraith.
- Mae'n rhaid i wasanaethau gorfodi'r gyfraith arloesi i ymateb i'r ffaith bod y byd troseddol yn mynd yn fwy cymhleth a soffistigedig, yn enwedig yn yr oes ddigidol a'i ffyrdd newydd o droseddu a ffyrdd sy'n dod i'r amlwg.
- Swyddog heddlu bob amser a fydd yn gwneud y penderfyniadau sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac ni ddylai technoleg lesteirio disgresiwn swyddogion unigol i wneud penderfyniadau mewn unrhyw amgylchiadau penodol.
- Defnyddir y dechnoleg mewn tair ffordd:

1. Adnabod wynebau ôl-weithredol - y dull mwyaf dibynadwy. Daw delwedd i law yn dilyn digwyddiad, ac yna mae'n cael ei gymharu â delweddau o'r ddalfa y gall yr heddlu eu cadw yn gyfreithlon. Y nod yw ceisio adnabod y sawl sydd dan amheuaeth fel y gellir bwrw ymlaen â'r ymchwiliad hwnnw. Mae'r dull hwn wedi bod ar gael ers 2016.

2. Adnabod wynebau byw - y defnydd mwyaf dadleuol o'r dechnoleg.  Defnyddir camerâu adnabod wynebau byw, wedi'u hategu gan achos ar sail gwybodaeth. Mae'r feddalwedd yn defnyddio ffrwd

fyw i gymharu unigolion â rhestr wylio. Wedi hynny, mae'r ddelwedd a'r templed biometrig a ddefnyddir ar gyfer adnabod wynebau byw yn cael eu dileu ar unwaith.

3. Adnabod wynebau a gychwynnir gan weithredwr – y ffurf ddiweddaraf. Dim ond nifer o heddluoedd sy'n defnyddio'r ffurf hon ar hyn o bryd. Mae'n defnyddio technoleg ar ffôn symudol y swyddog ac fe'i defnyddir gan y swyddog i adnabod aelodau o'r cyhoedd y mae'n ymdrin â nhw.

- Mae'r rhan fwyaf o'r heddlu wedi defnyddio'r dull adnabod wynebau ôl-weithredol yn lleol ers 2017. Byddai ganddynt fynediad at oriel genedlaethol a lleol o ddelweddau. Arferai gymryd tua 10 diwrnod i adnabod unigolion cyn y gellid arestio rhywun, felly'r amserlen angenrheidiol ar gyfer pasio'r prawf angenrheidrwydd i gael mynediad at y delweddau. Yn achos adnabod wynebau ôl-weithredol, gall gymryd 10 munud. Cafwyd bron i 4,000 achos o baru delweddau ers 2017. Yn gyffredinol, mae'r dechnoleg yn cyflymu'r gwaith o brosesu unigolion drwy'r system gyfiawnder.
- Rhoddodd Lloyd yr enghraifft o unigolyn a ymosododd ar fenyw ar nifer o fysiau yng Nghaerdydd. Llwyddwyd i adnabod yr ymosodwr drwy gymharu lluniau teledu cylch cyfyng y bysiau â delweddau o'r ddalfa a oedd yn 12 oed. Gyda thechnoleg adnabod wynebau, byddai wedi cymryd llawer yn hirach i adnabod yr unigolyn gan y byddai'r delweddau wedi cael eu cylchredeg ymhlith swyddogion yr heddlu ac o bosibl y cyhoedd i gael canlyniad.
- Wrth newid i'r dull hwn, mae Heddlu De Cymru ymysg yr ychydig heddluoedd sy'n defnyddio adnabod wynebau byw ar hyn o bryd - fe'i defnyddiwyd ar 70 achlysur, gan arwain at 75 o arestiadau; ni chafwyd unrhyw arestiadau ar gam na chwynion yn ymwneud yn benodol â'r dechnoleg ac eithrio dau achos llys.
- Adnabod wynebau a gychwynnir gan weithredwr yw'r fersiwn nesaf o'r dechnoleg; bydd y dechnegol hon ar ffonau symuedol swyddogion rheng flaen. Y rhesymeg yw y bydd swyddogion yn gallu gwirio enwau ar eu dyfeisiau symudol. Os na all unigolyn gadarnhau ei fanylion, defnyddir y dechnoleg, sy'n cynnig mwy o opsiynau na chymryd DNA a mynd â'r unigolyn i'r ddalfa. Dywed Lloyd fod hyn yn arbennig o berthnasol wrth ymwneud â phobl sy'n agored i niwed, unigolion coll, pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ac ati.
- O ran hawliau pobl, mae tri phrif achos dros ei defnyddio. Mae'r dechnoleg wedi cael ei derbyn yn gyffredinol gan gymdeithas, gan ei bod yn gyffredin ar ffonau symudol ac ati. Fodd bynnag, peth cywir yw bod gwasanaethau gorfodi'r gyfraith yn ddarostyngedig i'r lefelau uchaf o graffu. Mae dau lys: y Llys Adrannol a'r Llys Apêl. Mae Heddlu De Cymru wedi cael cyfarwyddyd gan y llys i wneud mwy – edrych ar bwy maen nhw'n ei roi ar y rhestr wylio a ble maen nhw'n defnyddio'r dechnoleg, ac mae angen cod ymarfer a diwygiadau i bolisïau lleol i unioni'r materion a ganfuwyd yn y llys.
- Cafodd y cod camerâu arwylio ei ddiwygio ym mis Awst 2021 ac fe fabwysiadodd elfennau o'r dyfarniad, fel y gwnaeth dogfennau polisi Heddlu De Cymru. Ers hynny, mae'r Coleg Plismona, fel corff proffesiynol ar gyfer yr heddlu, hefyd wedi cyhoeddi arfer proffesiynol awdurdodedig ar gyfer defnydd amlwg o dechnoleg adnabod wynebau byw.
- Hefyd, er i'r llys gydnabod nad oedd tystiolaeth glir bod tuedd yn y dechnoleg adnabod wynebau o ran hil a rhyw, gwnaeth Heddlu De Cymru bopeth o fewn ei allu i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus i ddeall unrhyw duedd bosibl yn y dechnoleg, gan wneud tri pheth o ganlyniad, sef:

1. Cysylltu â’r Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Cenedlaethol.

2. Gofyn am eglurder gan rai cyflenwyr.

3. Comisiynu’r astudiaeth weithredol fwyaf o adnabod wynebau byw yn y byd gorllewinol, gan ddefnyddio'r Labordy Ffisegol Cenedlaethol. Canolbwyntiodd yr astudiaeth, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, ar dair nodwedd warchodedig - hil, rhywedd, a rhyw - ar draws y tair gwaith y cafodd y dechnoleg ei defnyddio.

- Maent yn cydnabod efallai y bydd angen iddynt ailedrych ar eu polisïau a'r sefyllfa gyfreithiol wrth i’r dechnoleg ddatblygu.
- Ym mhrofiad Heddlu De Cymru, mae’r cyhoedd yn barod i dderbyn technoleg adnabod wynebau pan esbonnir iddynt sut y caiff ei defnyddio. Canfu Sefydliad Ada Lovelace a Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd fod cefnogaeth gref ymysg y cyhoedd i ddefnydd yr heddlu o’r dechnoleg cyhyd â’i bod yn helpu i leihau troseddu.
- Dywedodd Lloyd ei fod yn “hollol argyhoeddedig” bod technoleg adnabod wynebau wedi bod yn fuddiol i blismona o ran helpu i ddod o hyd i droseddwyr.
- Gofynnwyd cwestiynau, gan gynnwys a oedd y polisïau presennol yn cynnwys plant. Cadarnhaodd Lloyd fod mesurau ychwanegol i gadw cydbwysedd yn ymwneud â rhai nodweddion gwarchodedig, gan ganolbwyntio’n arbennig ar blant, a hynny oherwydd bod gwahaniaeth mewn oedran yn effeithio ar gywirdeb y dechnoleg.
- Dangosodd profion y Labordy Ffisegol Cenedlaethol nad oedd unrhyw duedd yn y dechnoleg o ran hil, rhywedd ac oedran ar gyfer adnabod wynebau ôl-weithredol ac adnabod wynebau a gychwynnir gan weithredwr. Mae gosodiadau yn y dechnoleg fyw yn golygu nad oes tuedd ar draws y nodweddion hynny ychwaith a bydd Heddlu De Cymru yn gweithredu yn gyson yn unol â’r gosodiadau trothwy hynny, neu’n uwch na nhw, i sicrhau nad oes unrhyw duedd, meddai. Hefyd, mae mesurau sicrhau cydbwysedd ar gyfer yr unigolion sydd ar y rhestr wylio. Mae'n nodi'r potensial i ddod o hyd i unigolion coll, yn enwedig unigolion ifanc.
- O ran trothwyon, gall y rhain newid os oes gwybodaeth i ategu achos dros chwilio am rywun penodol. E.e. pe bai rhywun sydd dan amheuaeth o derfysgaeth yng nghyffiniau digwyddiad mawr a bod angen ymwneud ag ef a'i chwilio i gadarnhau beth mae’n ei wneud yno. Dull haenog ydyw. Bydd y trothwy yr un fath yn gyffredinol i sicrhau nad oes unrhyw duedd ond, o safbwynt technegol, gallwch newid y gosodiadau yn seiliedig ar gategorïau yn y rhestr wylio neu i ddod o hyd i unigolion penodol. Bydd hynny'n cael ei werthuso yn unol â phroffil gwybodaeth y person ar y rhestr wylio a'r rhesymau a'r risgiau dan sylw.
- Cyfradd y canlyniadau cadarnhaol anghywir yw tua un camrybudd fesul 60,000 o bobl sy'n cerdded heibio i gamera. Ni chafwyd unrhyw ganlyniadau cadarnhaol anghywir yng nghyngherddau Harry Styles a Beyoncé yn ddiweddar. Mae hefyd gynnydd esbonyddol yn y cywirdeb - yn ôl y Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Cenedlaethol, po gywiraf y dechnoleg, lleiaf yr amrywiad.
- Gellir dod o hyd i'r dogfennau a grybwyllwyd, megis y cod ymarfer diwygiedig ac achos apêl Bridges (cyfeiriwyd at y dyfarniad llys eisoes) ar wefan y Comisiynydd Camerâu Arwylio a Biometrig. Ceir llawer o’r dogfennau polisi ar wefan y Coleg Plismona – ac ar wefan Heddlu De Cymru.

- Mae pryder y byddai’r dechnoleg yn cael ei defnyddio ar gyfer yr hawl i brotestio, fel y gwelwyd yng nghoroniad y Brenin, ond dywedodd Lloyd nad oedden nhw erioed wedi ei defnyddio a’i bod yn beth anodd a thringar - felly, pan fydden nhw’n ei defnyddio, yng nghyngherddau Harry Styles, dyweder, fe fydden nhw’n chwilio am bobl sydd dan amheuaeth o derfysgaeth, a phe bai protest yn ymddangos, ni fyddent yn cael ei defnyddio i blismona honno. Peidier byth â dweud byth, meddai, ond dylai'r dogfennau polisi bennu'r cydbwysedd cywir wrth wneud penderfyniadau plismona o'r fath.
- Caiff penderfyniadau ynghylch pa gyngherddau i ddefnyddio’r dechnoleg ar eu cyfer (er enghraifft, ni chafodd ei defnyddio ar gyfer cyngerdd Cold Play)eu gwneud gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn craffu arnynt. Mae gwybodaeth yn cael ei gwerthuso a gwneir penderfyniadau o fewn “strwythur aur, arian ac efydd,” sef y galluoedd sydd fwyaf addas i liniaru’r risg honno.

## Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o ran goruchwylio technoleg adnabod wynebau

- Rhoddodd Lee Jones, Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, sylwadau a throsolwg o rôl y Comisiynydd. Un o’r rolau allweddol yw dwyn Prif Gwnstabl yr Heddlu i gyfrif am ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol, sef rôl sy’n deillio o'r Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ond nid yw’n caniatáu ymyrryd â phlismona gweithredol. H.y. maen nhw'n rhesymoli’r adnoddau sy'n cael eu defnyddio, ond gall y Comisiynydd ddarparu goruchwyliaeth i sicrhau bod y rhesymeg yn cael ei chyfiawnhau.
- Mae sianeli ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer yr oruchwyliaeth honno a threfniadau llywodraethu trylwyr, gan gynnwys pwyllgorau craffu ffurfiol.
- Mae'r Comisiwn hefyd yn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer plismona lleol drwy ei Gynllun Heddlu a Throseddu, sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd.
- Prif gyfrifoldeb Jones yw cydgysylltu ar ran y Comisiynydd a hwyluso gwaith craffu cyhoeddus ar rôl dwyn y pennaeth i gyfrif. Mae datblygu technoleg adnabod wynebau yn lleol wedi bod yn brif bryder ac maent wedi goruchwylio a darparu gwybodaeth ar gyfer yr achosion llys a grybwyllwyd. Mae eu dull gweithredu yn cael ei arwain gan bolisi safonol ond gallant ystyried pryderon y cyhoedd ac arbenigedd academaidd – mae annibyniaeth nad yw pobl yn ymwybodol ohoni efallai.
- Mae panel Heddlu a Throseddu sy'n cynnwys aelodau o bob un o'r saith awdurdod lleol yn ardal De Cymru a hefyd aelodau annibynnol.
- Maent wedi gweld cynnydd yn y dechnoleg a'r ymateb i'r achos llys; caiff arddangosiad ei gynnal i aelodau'r panel ar sut y bydd y dechnoleg yn gweithio.
- Mae ganddynt grŵp atebolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu – grŵp o aelodau annibynnol o blith y gymuned, grwpiau cydraddoldeb hiliol a sefydliadau pobl ifanc, ac ati. Maent yn cynnig gwahanol bersbectifau ynghylch stopio a chwilio a thechnoleg adnabod wynebau yn arbennig.
- Mae bwrdd craffu, gyda Jones ac aelodau ei dîm, yn mynd ati’n rhagweithiol i ddatblygu adborth, gan ddefnyddio gwaith ymgysylltu â’r cyhoedd, arbenigwyr, adroddiadau o’r byd academaidd, ac ati. Mae agweddau technolegol hefyd i gyd yn cael eu rhoi fel adborth

mewn adroddiad i fwrdd strategol y Comisiynydd, sef y bwrdd atebolrwydd uchaf dan gadeiryddiaeth y Comisiynydd, gan ddwyn y Prif Gwnstabl a'i uwch-dîm i gyfrif hefyd os oes angen uwchgyfeirio unrhyw beth neu drafod pwyntiau allweddol, boed hynny, er enghraifft, yn achos llys neu'n fater sydd i'w uwchgyfeirio at banel yr Heddlu a Throseddu.

- Dywedodd Mr Jones eu bod hefyd yn ymwybodol o'r cwestiynau moesegol yn hyn o beth. Mae pwyllgor moeseg ac arbenigwyr wedi bod yn gysylltiedig ers dechrau datblygu'r dechnoleg.
- Cyflwynwyd newidiadau, ond mae'n broses ailadroddol. Maent wedi nodi materion yn ymwneud â chywirdeb wrth adnabod pobl groenliw a phobl iau, ond wrth i'r dechnoleg gael ei defnyddio mwy, bydd materion pellach yn codi.
- Mae'r pwyllgor moeseg annibynnol dan gadeiryddiaeth annibynnol; mae aelodau annibynnol yn cael eu penodi iddo o amrywiaeth o gefndiroedd o fewn y gymuned.
- Mae pob achos dros ddefnyddio'r dechnoleg yn cael ei benderfynu'n unigol, a hynny ar sail y darlun a geir gan y wybodaeth. Roedd cyngherddau Harry Styles yn cyfiawnhau defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, meddai, oherwydd bod y demograffeg yn iau, sy'n golygu ei fod yn darged posibl ar gyfer troseddwyr rhyw a therfysgaeth. Roeddent yn gyngherddau hynod boblogaidd, felly roedd y potensial i ddod o hyd i unigolion coll yn uchel. Felly, nid oes hawl i ddefnyddio'r dechnoleg fel y mynner. Nodwyd 714 o unigolion – blaenoriaeth uchel, gwarantau heb eu cwblhau, unigolion coll, a phobl a oedd efallai dan amheuaeth o derfysgaeth.
- Er na allant ymhél â phlismona gweithredol, maent yn cynnal arolwg blynyddol sy'n rhoi adborth ar ddulliau plismona.
- O ran plant, mae cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn aelodau o Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona fel y gall adborth ddigwydd yn y ffordd honno. Yn gyffredinol, mae'r llinellau cyfathrebu rhwng comisiynwyr hefyd yn dda.
- Wrth ateb cwestiwn ynghylch a yw pobl yn cael gorchuddio eu hwynebau, fel a ddigwyddodd lawer gwaith yn ystod COVID, dywedwyd nad oes angen i'r dechnoleg weld yr wyneb llawn i weithio. Gall pobl guddio eu hwynebau os dymunant a hysbysebir y ffaith bod technoleg adnabod wynebau byw'n cael ei defnyddio. Mae'n arf ataliol sylweddol yn ogystal â ffordd o adnabod pobl.
- Mae gan yr heddlu bwerau cyffredinol i ddweud wrth bobl i dynnu eu gorchuddion pen neu eu gorchuddion wyneb ac ati, sef pwerau nad ydynt yn ymwneud yn benodol ag adnabod wynebau. Hefyd, pe bai pobl yn cerdded heibio i gamerâu gyda 'bagiau am eu pennau', fe allai arwain at gael gair â nhw.
- Rhoddodd Jones a Lloyd sicrhad bod ymgysylltiad cymunedol yn barhaus a bod llawer o waith yn mynd rhagddo i egluro'r dechnoleg a bod y paneli amrywiol yn cynnwys cyfranogiad gan y gymuned. Mae angen mwy o ymgysylltu mewn ffordd benodol.
- Maent yn derbyn y pwynt yn ymwneud â thuedd o ddifrif ac yn gweithio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol - maent wedi dechrau ymchwiliad i ddeallusrwydd artiffisial a thechnoleg adnabod wynebau ac maent wedi cyhoeddi eu cynllun tair blynedd sy'n canolbwyntio ar y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial gan heddluoedd.

- Rhwystredigaeth y cyhoedd, mae’n debyg, yw nad yw'r heddlu'n defnyddio'r dechnoleg yn ehangach nag y maent ar hyn o bryd.

## Pryderon y gymdeithas sifil ynghylch technoleg adnabod wynebau byw

- Cafwyd cyflwyniad hefyd gan Madeline Stone, swyddog cyfreithiol a pholisi Big Brother Watch, sef grŵp ymgyrchu dros iawnderau sifil a phreifatrwydd yn y DU.
- Mae Big Brother Watch wedi bod yn dilyn defnydd Heddlu De Cymru, Heddlu'r Met a'r sector preifat o dechnoleg adnabod wynebau ac maen nhw'n bresennol mewn achosion lle mae’r dechnoleg yn cael ei defnyddio.
- Pwysleisiodd Stone nad oedd Big Brother Watch yn absoliwtaidd yn eu hymagwedd - mae dod o hyd i unigolion sy’n ddrwgweithredwyr troseddol yn wahanol i arwylio cefnogwyr pêl-droed mewn gêm neu brotestwyr.
- Maen nhw'n derbyn y gallai fod lle i ddulliau adnabod wynebau ôl-weithredol o fewn plismona oherwydd eu bod yn llawer mwy penodol a chymesur. Serch hynny, y pryder yw bod angen mesurau diogelu cyfreithiol o hyd ynghylch sut y caiff y dechnoleg ei defnyddio ac nid oes unrhyw ddeddfwriaeth bwrpasol ar ei chyfer.
- Adnabod wynebau byw yw’r bygythiad mwyaf arwyddocaol i hawliau dynol, preifatrwydd ac iawnderau sifil yn y DU, a hynny oherwydd bod y dull hwn yn “wyliadwriaeth dorfol” anwahaniaethol sy’n sganio pawb sy’n cerdded heibio. “Credwn fod hon yn dechnoleg sy’n dileu preifatrwydd. Mae materion difrifol o ran cywirdeb a gwahaniaethu. Ac yn olaf, mae’r dechnoleg hon yn hynod annemocrataidd.”
- Gellir sganio data biometrig unrhyw un, sy’n hynod sensitif ac yn ddarostyngedig i amddiffyniad sylweddol ac amddiffyniadau ychwanegol os prosesir y data. Mae’r data hyn yn cael eu cymharu â rhestr wylio. Mae'r offeryn hwn yn troi plismona traddodiadol ar ei ben. Fel rheol, caiff arwylio ei ragflaenu gan amheuon - bydd unigolyn dan amheuaeth a bydd tystiolaeth i gyfiawnhau arwylio, neu mae risg y bydd yr unigolyn yn troseddu neu mae rhesymau eraill dros gynnal ymchwiliad. Mae adnabod wynebau byw yn dechrau gydag arwylio pawb sy'n cerdded heibio i gamera ac yna eu cymharu â rhestr wylio.
- “Yn y pen draw, mae’n troi pawb yn gerdyn adnabod ar ddwy goes, gyda’n hwynebau’n cael eu defnyddio fel codau bar y gellir eu sganio.”
- Mae'r sgan yn cymryd eiliad gyda'r data'n cael ei ddileu wedyn, ond mae o’r un natur â swyddogion heddlu yn mynnu cael olion bysedd gan bawb sy'n cerdded heibio er mwyn cadarnhau pwy ydynt. A’u dileu wedyn. Ond nid yw’r sgan o reidrwydd yn digwydd gyda’ch gwybodaeth na'ch caniatâd.
- Hyd yn hyn, mae’r camerâu wedi cael eu defnyddio ar ben faniau, a gall y defnydd o’r dechnoleg bara hyd at wyth awr.
- Mae’n cael ei normaleiddio a byddwn yn ei gweld yn cael ei defnyddio’n ehangach, meddai Stone, ac yn y pen draw o fewn rhwydweithiau teledu cylch cyfyng. Ond, rydym yn disgwyl rhywfaint o breifatrwydd a pheidio â chael ein monitro bob eiliad, lle bynnag y bydd camerâu. Mae ei defnydd yn debyg i'r hyn sy'n digwydd yn Tsieina a Rwsia. Y math hwn o dechnoleg yw asgwrn cefn gwladwriaeth heddlu.
- Ychydig iawn o fesurau diogelu sydd ac nid yw'r dechnoleg yn gweithio'n berffaith, er i filiynau gael eu buddsoddi, felly dylai fod yn fwy cywir.

- Dywed Stone fod ystadegau eraill yn awgrymu nifer uwch o rybuddion ar gyfer llai o ddigwyddiadau a llawer mwy o ganlyniadau cadarnhaol anghywir - ers 2017, mae 90% o'r holl ddelweddau sydd wedi cael eu paru wedi bod yn ganlyniadau cadarnhaol anghywir,
- Rheoleiddir y dechnoleg gan glytwaith o ganllawiau a chan God y Comisiynydd, er na ellir gorfodi hwnnw'n gyfreithiol.
- Nid oes unrhyw ganllawiau adnabod wynebau penodol y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol sy'n goruchwylio sut mae'r heddlu'n defnyddio'r dechnoleg, ac nid oes unrhyw gyfraith sy'n sôn yn benodol am adnabod wynebau. Felly, yn ôl y canllawiau a ysgrifennwyd gan y Coleg Plismona ar gyfer yr heddlu, mater eang yw pwy sy'n cael ei roi ar restrau gwylio.
- Mae rhai o'r achosion sy'n cael eu cofnodi fel canlyniadau cadarnhaol gan yr heddlu mewn gwirionedd yn bobl na ddylai fod ar restrau gwylio yn y lle cyntaf. Er enghraifft, yn Llundain, cafodd dyn ifanc ei fflagio gan system adnabod wynebau, ac fe'i cofnodwyd fel canlyniad cadarnhaol cywir, ond ni ddylai byth fod wedi bod ar y rhestr wylio gan ei fod wedi cael ei ryddhau o'r carchar ychydig ddyddiau ynghynt ac nid oedd achos ar sail gwybodaeth, ac nid oedd yr heddlu'n chwilio amdano am unrhyw drosedd, ond fe'i rhoddwyd ar restr wylio. Er iddo wneud rhywbeth drwg yn y gorffennol, mae wedi mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol a bwrw ei ddedfryd, ond gwnaeth yr heddlu ei stopio i wirio ei fanylion a'i holi beth bynnag, ac mae hynny'n gallu achosi straen.
- Y llinell sylfaen graidd ar gyfer defnyddio'r math hwn o dechnoleg yw rheidrwydd ac effeithiolrwydd. Edrychodd astudiaeth annibynnol gan y Labordy Ffisegol Cenedlaethol a gomisiynwyd gan Dde Cymru a'r Met ar gywirdeb a gwahaniaethu o fewn y dechnoleg. Cyfeiriwyd at y gyfradd gadarnhaol anghywir o 1 o bob 60,000 yn seiliedig ar y rhestr wylio, sy'n uwch nag y dylai fod, a'r ffaith bod y rhestrau gwylio hyn ar gynnydd. Wrth i'r rhestrau dyfu, bydd y cywirdeb yn cael ei lastwreiddio a cheir mwy fyth o ganlyniadau cadarnhaol anghywir. Canfu asesiad yr adroddiad o duedd hefyd fod rhai trothwyon yn peri anhawster o ran paru delweddau yn gywir, yn arbennig yn achos menywod ifanc Du.
- Pan fo angen meithrin cymaint o ymddiriedaeth mewn cymunedau, nid dyma'r amser i fuddsoddi cymaint o arian mewn defnyddio'r math hwn o dechnoleg.
- Y tu hwnt i algorithmau, rhaid nodi lle mae'r defnydd yn digwydd a phwy sy'n cael ei dargedu - cafodd ei defnyddio gyntaf yng Ngharnifal Notting Hill, lle mae cymunedau Du Prydeinig ac Affricanaidd Caribïaidd Llundain yn dod ynghyd, sy'n dweud cyfrolau am bwy y mae'r Met yn eu targedu.
- Mae wedi cael ei defnyddio hefyd mewn ardaloedd yn Llundain lle mae nifer fawr o bobl Ddu ac mae'n bwysig bod grwpiau hawliau dynol yn arsylwi ar y defnydd hwn. Mae'r bobl sy'n cael eu stopio a'u camadnabod dro ar ôl tro yn ddynion ifanc Du ac mae hyn yn digwydd yn aml mewn amgylchiadau eithaf ymosodol pan nad ydynt efallai'n deall beth sy'n digwydd.
- Ni fu erioed ddadl ynghylch technoleg adnabod wynebau yn Nhŷ'r Cyffredin. Galwodd yr unig bwyllgor yn Senedd y DU i edrych ar y defnydd o adnabod wynebau byw am i'r rheolydd cydraddoldeb a hawliau dynol roi stop ar unwaith ar y defnydd o'r dechnoleg hon.
- Mae democratiaethau yn symud tuag at atal ei defnydd; er enghraifft, mae taleithiau a dinasoedd yn yr Unol Daleithiau yn gwahardd y dechnoleg hon yn gynyddol - mae Dinas Efrog Newydd wrthi'n ystyried gwahardd y dechnoleg hon mewn mannau cyhoeddus.

Pleidleisiodd Senedd Ewrop i wahardd adnabod wynebau yn ei gyfanrwydd heb unrhyw fylchau i'r heddlu fanteisio arnynt oherwydd y gydnabyddiaeth o'r ffaith bod y dechnoleg hon yn fygythiad i hawliau dynol. Mae'r DU yn mynd yn fwyfwy o allanolyn yn ei hagwedd at adnabod wynebau byw.

- I ateb safbwynt Stone, dywedodd Lloyd eu bod yn gweld gwelliannau yn y dechnoleg a dyna pam maent am ei defnyddio. Ond mae'n cytuno y dylai fod deddfwriaeth sylfaenol.
- Gwnaed y pwynt na fydd pobl, yn enwedig yn y cymunedau Du, yn ymddiried yn y technolegau hyn hyd nes eu bod yn dechrau ymddiried yn yr heddlu.
- Dywedodd Stone y bu adlach gan grwpiau cydraddoldeb hiliol a bod Prifysgol Essex wedi canfod risgiau i hawliau dynol oherwydd y dechnoleg.
- Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig ystyried pwy sy'n cael ei roi ar restrau gwylio gan nad mater o droseddwyr rhyw a therfysgwyr yn unig ydyw; mae'r categorïau o bobl y gellir eu rhoi ar y rhestrau gwylio, yn ôl canllawiau'r Coleg Plismona, yn "hynod o eang," ac nid ydynt yn gyfyngedig i bobl sydd dan amheuaeth o gyflawni troseddau – gellir rhoi tystion a dioddefwyr troseddau ar restr wylio, ynghyd â chymdeithion unrhyw un o'r bobl hyn. Er enghraifft, yn y brotest yn erbyn arfau yng Nghaerdydd, defnyddiwyd system adnabod wynebau byw a rhoddwyd ymgyrchwyr nad oedd yr heddlu'n chwilio amdanynt am unrhyw drosedd ar restrau gwylio at ddibenion cudd-wybodaeth yn unig. Dyna oedd sail yr her gyfreithiol yn erbyn Heddlu De Cymru. (Cafodd Ed Bridges, cynghorydd lleol ac ymgyrchydd yn erbyn arfau, ei roi ar restr wylio tra ei fod yn rhywle yr oedd y dechnoleg ar waith). Mae pobl â phroblemau iechyd meddwl wedi cael eu rhoi ar restrau gwylio yn Llundain. Mae rhestr y GIG o bobl â chyflyrau iechyd meddwl penodol hefyd yn cael ei rhoi ar y rhestrau gwylio hyn. Mae'r darlun yn llawer ehangach na rhai o'r astudiaethau achos ergydiol sy'n cael eu cyhoeddi gan yr heddlu.
- Dywedodd Jones fod y wybodaeth yn ddefnyddiol. Bydd yn gofyn ymhellach am y mesurau cadw cydbwysedd yn lleol.
- Gwnaed y pwynt bod y ffaith bod Heddlu De Cymru yn ailddechrau defnyddio systemau adnabod wynebau byw yn cyd-daro ag adnewyddiad y llywodraeth o'i pholisi gwrthderfysgaeth, yn enwedig o ran atal terfysgaeth - mae rhwymedigaethau ynghylch lleoliadau, cymorth adnabod wynebau byw o amgylch cyngherddau proffil uchel yn cyd-fynd â hynny; hefyd proffilio a chyfeirio pobl ymlaen at gronfa ddata Prevent, sydd ynddi ei hun yn gweld nifer gynyddol o ganlyniadau cadarnhaol anghywir. Mae Open Rights Group yn pryderu am bobl yn mynd i wahanol gronfeydd data a rhestrau gwylio ac mae'n chwilfrydig ynghylch a fydd y ffrwd honno'n mynd ar y rhestrau gwylio hyn a'r agwedd hil ar hynny.
- O ran cefnogaeth y cyhoedd, y cwestiwn yw o blith pwy y mae honno'n dod, gan y byddai'n newid yn ôl oedran, ardal, ethnigrwydd. Mae ymhle y caiff ymddiriedaeth ei meithrin yn bwysig.
- Gofynnodd Murphy a ellid rhannu data ar unigolion at wahanol ddibenion rhwng adrannau. Cyfeiriwyd at ymchwiliad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a oedd yn ymwneud â menywod mudol sy'n ddioddefwyr trais domestig, a sut y byddent yn clywed gan y Swyddfa Gartref ar ôl hysbysu'r heddlu o ddigwyddiad. Roedd achos hefyd gyda Heddlu Manceinion Fwyaf, pan hysbyswyd yr Adran Gwaith a Phensiynau o

bresenoldeb pobl ag anableddau gweladwy mewn protest yn erbyn ffracio, a hynny er mwyn bygwth eu budd-daliadau am y rheswm 'os oeddent yn ddigon iach i fynd i brotest, gallent weithio hefyd'. Felly, beth yw’r tebygolrwydd y byddai technoleg adnabod wynebau yn hwyluso hynny?

- Dywedodd Lloyd y byddai hynny'n peri pryder ac nad oedd hynny'n digwydd hyd y gwyddai ef.